

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Cynllun Iaith Gymraeg



Ail Argraffiad

Cynnwys

Rhagair i'r ail argraffiad	3	4. Delwedd gyhoeddus y Comisiwn Coedwigaeth	11-13
Cyd-destun a gweledigaeth i'r ail argraffiad	4	Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu	
Cyflwyniad		Cyhoeddiadau	
1. Y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru	5-6	Gwefan	
2. Cynllunio a darparu gwasanaethau	7-8	Ffurflenni a deunyddiau esboniadol cysylltiedig	
Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau		Hunaniaeth gorfforaethol	
Darparu gwasanaethau		Arwyddion yng Nghymru	
Ein swyddogaethau rheoleiddiol a'r gwasanaethau a ddarperir ar ein rhan gan eraill		Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff	
Safonau ansawdd		Datganiadau newyddion a chysylltu â'r cyfryngau	
Dyfarnu grantiau			
3. Delio â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith	9-10	5. Gweithredu'r cynllun	14-17
Gohebiaeth		Staffio	
Cyfathrebu dros y ffôn		Recriwtio	
Cyfarfodydd cyhoeddus		Hyfforddiant iaith	
Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru		Hyfforddiant galwedigaethol	
Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru		Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	
		Gweithio trwy bartneriaeth	
		Trefniadau mewnol	
		Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	
		Monitro	
		Adolygu a diwygio'r Cynllun	
		Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant	

Rhagair i'r ail argraffiad

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Mae cynllun y Comisiwn Coedwigaeth yn ymwneud â'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru .

Mae'n disgrifio sut y byddwn, cyhyd ag y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn gweithredu'r egwyddor a bennwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg, wrth drafod materion yn gyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, gael eu trin yn gyfartal.

Yn y cynllun hwn, mae cyhoeddus / y cyhoedd yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Ystyrir hefyd fod cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig yn perthyn i'r 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swyddi fel cynrychiolwyr y Goron, Llywodraeth neu Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur cyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn cael eu hystyried yn aelodau o'r cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Cafodd y cynllun ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol ag Adran 14 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 08/06/07, ac mae'n disodli'r cynllun gwreiddiol a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 01/04/2000.



Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â chwmpas a phwrpas cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (<http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/>).

Ers cyhoeddi ein cynllun gwreiddiol, rydym wedi gweithredu gofynion y cynllun ac wedi monitro ein cynnydd yn ôl y targedau a bennwyd ac wedi adrodd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ôl y gofyn. Wrth i'n perthynas ac ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu oddi ar 2000, daethom i'r casgliad ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod angen cynllun diwygiedig er mwyn diweddarau nifer o'n hymrwymyiadau a thargedau.

Wrth baratoi'r fersiwn diwygiedig hwn o'r cynllun, rydym wedi manteisio ar y cyfle i fireinio, cyfnerthu a gwella geiriad amryw fesurau trwy eu haddasu a'u gwneud yn fwy eglur.

Cyd-destun a gweledigaeth i'r ail argraffiad

CYNLLUN GWEITHREDU CENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU DDWYIEITHOG

Ym mis Chwefror 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Iaith Pawb, sef 'cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog'. Y cynllun hwn yw'r fframwaith cenedlaethol cyntaf erioed wedi'i gynllunio ar lefel llywodraethol ar gyfer cadw, cynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ledled Cymru. Fel sefydliad sy'n ymroddedig i stiwardiaeth coetiroedd Cymru ac sy'n gweithredu fel Adran Coedwigaeth Llywodraeth y Cynulliad, rydym yn cefnogi nodau'r strategaeth hon ar gyfer amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig fel cyfraniad pwysig gan y sector tuag at wireddu'r strategaeth genedlaethol ehangach hon.

DATGANIAD EGWYDDORION

Mae darparu gwasanaethau yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru yn un o'r materion cydraddoldebau statudol yng Nghymru yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rydym yn cydnabod fod iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth person a bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu hiaith ddewisol.

Wrth weithredu mesurau'r cynllun hwn, fe fyddwn yn pwysleisio parchu hawliau a dyheadau teg y bobl

hynny sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg. Felly, mae ein strategaeth wrth gynllunio ymlaen ar gyfer ein gwasanaethau yn seiliedig ar y ffaith ein bod yn credu ei bod yn deg a rhesymol bob amser bod y cyhoedd yng Nghymru'n gallu disgwyl gwasanaeth neu gyfathrebiad gan y Comisiwn Coedwigaeth yn Gymraeg neu Saesneg, yn unol â'u dewis.

GWELEDIGAETH Y COMISIWN COEDWIGAETH AR GYFERY DEGAWD NESAF

Wrth ddechrau gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg, buom yn canolbwyntio ar sefydlu seiliau cadarn ar gyfer ei weithredu'n ddwyieithog a chynnig dewis iaith wrth ddelio â'r cyhoedd. Bellach mae gennym weledigaeth ynglŷn â sut i ddatblygu fel sefydliad dwyieithog yn y dyfodol. Ar gyfer gweithredu'r cynllun diwygiedig hwn dros y degawd nesaf mae gennym nifer o amcanion hirdymor y byddwn yn ceisio'u cyflawni. Dros y deng mlynedd nesaf byddwn:

- yn gweithredu fwyfwy fel sefydliad dwyieithog, ac yn cynllunio ymlaen er mwyn cynyddu cyfran ein staff â sgiliau siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn:
 - i. gwireddu ymrwymadau'r cynllun a;
 - ii. gwneud y staff yn llai dibynnol ar y gwasanaeth cyfieithu.

- yn cymhell ein staff i ymfalchio yn yr iaith Gymraeg ac ymrwymiad y Comisiwn Coedwigaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog;
- yn meithrin mwy o ddiddordeb yn ein gwaith ymhlith siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, gyda golwg ar ddenu rhagor o ymgeiswyr o gymunedau Cymraeg ar gyfer gyrfaoedd gyda'r Comisiwn Coedwigaeth ac yn y sector coedwigaeth yn gyffredinol;
- yn meithrin rhagor o arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg yn y meysydd coedwigaeth, cymunedol ac amgylcheddol sy'n berthnasol i waith y Comisiwn Coedwigaeth i helpu i gyfrannu tuag at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd arbenigol;
- yn dylanwadu ar sefydliadau ac unigolion eraill oddi mewn a'r tu allan i'r sectorau coedwigaeth ac amgylcheddol i weithredu yn unol ag arferion dwyieithog da;
- yn ceisio cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn rhagweithiol trwy gyfrwng ein gwasanaethau ac arbenigeddau;
- yn manteisio ar gyfleoedd i ddehongli ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg ochr yn ochr â'n gwaith o reoli a diogelu coetiroedd Cymru.

Cyflwyniad

Y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru

STATWS

1.1 Y Comisiwn Coedwigaeth yw'r adran o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am roi cyngor ynghylch polisi coedwigaeth ym Mhrydain a gweithredu'r polisi hwnnw. Cyn datganoli roedd y Comisiwn Coedwigaeth yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Yn dilyn datganoli mae'r drefn wedi newid. Bellach mae'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gan y Cynulliad y pwerau ffurfiol mewn perthynas â choedwigaeth yng Nghymru, gan gynnwys y pŵer o gyfarwyddo'r Comisiwn Coedwigaeth a chyfrifoldeb ariannol dros ei weithgareddau yng Nghymru. Bydd materion na chafodd eu datganoli megis polisi rhyngwladol, iechyd planhigion, ymchwil a safon coedwigaeth y DG yn dal i fod yn faterion Prydain gyfan.

1.2 Daeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru i rym ar 1 Ebrill 2003 ac mae'n gwasanaethu fel adran goedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi cyngor ynghylch polisiau coedwigaeth a gweithredu'r polisiau hynny. Mae hefyd yn rheoli'r ystâd goedwigaeth genedlaethol yng Nghymru, sef oddeutu 125,000 hectar, er budd y cyhoedd. Cyfrifoldeb y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yw'r polisi coedwigaeth a'i fframwaith ariannol.

1.3 Er gwaethaf effaith datganoli, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn dal i fod yn rhan o'r Comisiwn Coedwigaeth, sy'n gorff cyhoeddus trawsffiniol â chanddo Gadeirydd a Bwrdd Comisiynwyr. Mae cyfrifoldebau a phwerau'r Comisiynwyr Coedwigaeth yn deillio'n bennaf o Ddeddfau Coedwigaeth 1967 a Deddf Iechyd Planhigion 1967. Mae nifer o Ddeddfau ac Offerynnau Statudol eraill Prydain yn berthnasol, gan gynnwys Is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth 1982.

NATUR EIN BUSNES, EIN STRATEGAETH, NODAU AC AMCANION

Strategaeth

1.4 Nododd Cynulliad Cymru ei weledigaeth ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru yn 'Coetiroedd i Gymru', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2001 a'i ddiweddarau yn 2007. Mae'n disgrifio sut i ddarparu gwir fanteision cymdeithasol a chymunedol, yn lleol a chenedlaethol, gan gefnogi diwydiannau ffyniannus sy'n seiliedig ar goetiroedd a chyfrannu at well amgylchedd ledled Cymru. Mae 'Coetiroedd i Gymru' ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn www.forestry.gov.uk/wales

Nodau ac Amcanion

1.5 Mae nodau ac amcanion Comisiwn Coedwigaeth

Cymru yn deillio o Coetiroedd i Gymru ac o amcanion ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel gweithgaredd gwledig yn bennaf, mae coedwigaeth yn chwarae rhan bwysig o ran cyflawni datblygiad gwledig, ond mae ganddo hefyd ran gynyddol bwysig i'w chwarae o ran helpu i gyflawni amcanion eraill megis adfywio trefol, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, ynni adnewyddol a ffyrdd o fyw iachach. Mae gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru bum amcan strategol sy'n ymwneud â chanlyniadau, a fynegir yn ein Cynllun Corfforaethol 2005/06 - 2007/08 [Coed Campus Cymru Campus – cyhoeddwyd Mawrth 2005]:

- Rheolaeth goetir gynaliadwy;
- Coetiroedd yn cefnogi cymunedau effeithiol sy'n para;
- Coetiroedd yn gwneud cyfraniad positif i economi llewyrchus a chynaliadwy i Gymru;
- Coetiroedd yn cyfrannu at amgylchedd iachach a gwytnach;
- Cyflawni effeithiol ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

Cyflwyniad

Y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru

1.6 Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar y thema o reolaeth goedwig gynaliadwy a chyflawni canlyniadau sy'n seiliedig ar ddeilliannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol rheoli coedwigoedd fydd yn ein cynorthwyo i gyflawni ein gweledigaeth gyffredinol o Goed Campus Cymru Campus. Byddwn yn gweithio i wireddu ein gweledigaeth mewn nifer o ffyrdd:

- **Stiwardiaeth** - Rydym yn gweithredu fel stiwardiaid ar gyfer ystâd goetir y Cynulliad, sy'n cynnwys 38% o goetiroedd Cymru;
- **Grantiau** - Ar wahân i'r ystâd, rydym yn annog stiwardiaeth a rheolaeth dda ar goetiroedd trwy roi grantiau wedi'u targedu, gan gyrraedd 15% yn rhagor o Goetiroedd Cymru.
- **Busnes** - Rydym yn cynhyrchu incwm o ystâd y Cynulliad trwy gynaeafu pren yn gynaliadwy a gweithgareddau eraill ac ail-fuddsoddi mewn prosiectau sy'n cyflawni ein nodau cymdeithasol ac amgylcheddol.
- **Rheoleiddio** - Rydym yn rheoli arfer coedwigaeth ledled Cymru trwy drwyddedu cwmpo ac ailblannu; trwy asesiadau effaith amgylcheddol; a thrwy weithredu fel Awdurdod Perthnasol ar gyfer mynediad i goetiroedd â hawliau statudol;
- **Polisi, Cyfathrebu ac Ymchwil** - Rydym yn ymgynghori'n eang â budd-ddeiliaid ac yn cynnal

perthynas waith agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth y tu allan i Gymru.

- **Partneriaethau** - Er mwyn cyflawni'r mwyaf posibl, rydym yn ceisio gweithio mewn partneriaethau ag eraill ar lefelau lleol, ardal neu genedlaethol ar brosiectau lle bydd hyn yn ein cynorthwyo i ateb ein hamcanion strategol.

1.7 Ceir cynlluniau gwario blynyddol Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru sef www.wales.gov.uk

Lleoliad

1.8 Mae Swyddfa Genedlaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn Aberystwyth, ac o'r fan hyn y cyflawnir y rhan fwyaf o'n swyddogaethau adrannol a chorfforaethol. Rheolir ystâd goetir y Cynulliad o'n pedair swyddfa Ardal Goedwig yn Nolgellau, y Trallwng, Llanymddyfri a Resolfen, ger Castell-nedd. Mae'r timau Grantiau a Thrwyddedau'n gweithio o ddwy swyddfa ardal yng Nghlawdd Newydd, ger Rhuthun, a'r Fenni. Hefyd mae gennym nifer o is-swyydfeydd ledled Cymru, yn enwedig yn Llanrwst lle mae ein tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Cenedlaethol yn gweithio.

1.9 Mae'r Comisiwn Coedwigaeth ehangach yn gweithredu ledled yr Alban a Lloegr, yn ogystal â bod ag Asiantaeth Ymchwil Weithredol [Ymchwil Goedwigaeth]; sy'n gweithredu ar lefel Prydain gyfan. Mae gan y Comisiwn bencadlys gwasanaethau ar gyfer nifer o wasanaethau ar y cyd i Brydain gyfan yng Nghaeredin, yn ogystal â staff eraill yn yr uned Fusnes i Brydain gyfan sy'n gweithio yn y gwledydd, gan gynnwys Cymru. Ar 1 Ebrill 2007, roedd y Comisiwn Coedwigaeth yn cyflogi 3330 o staff, 376 ohonynt yng Nghymru. O'r staff sy'n gweithio yng Nghymru, mae 27% yn siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gweithio yn ardaloedd gwledig Gogledd a Gorllewin Cymru.

Cynllunio a darparu gwasanaethau

POLISIŌAU, DEDDFWRIAETH A MENTRAU

2.1 Bydd y Cyfarwyddwr a Bwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn sicrhau yr ystyrir yr egwyddor o gydraddoldeb iaith ym mhob agwedd ar ein gwaith, a bod pob Uned yn gweithredu yn unol â'r cynllun. Nodir manylion pob gwyriad cytunedig oddi wrth gydraddoldeb yn y cynllun hwn. Darperir cymorth ariannol i'r cynllun oddi mewn i'r gwariant cynlluniedig presennol.

2.2 Bydd pob prosiect a pholisi newydd a lunnir ac a weithredir gan neu ar ran Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn amodol ar ofynion y cynllun hwn. Wrth gynllunio a pharatoi unrhyw brosiectau a pholisïau o'r fath, byddwn yn sicrhau eu bod yn gydnaws ag amcanion y cynllun hwn.

2.3 Pryd bynnag y bo modd, bydd ein dogfennau ymgynghori'n trafod y berthynas rhwng yr iaith Gymraeg a'r polisïau, mentrau a gwasanaethau sy'n cael eu datblygu.

2.4 Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflawni polisïau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd a arweinir gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gydnaws â'r cynllun hwn.

2.5 Y Swyddog Iaith Gymraeg, fydd yn adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth yr Ysgrifenyddiaeth a Chyfathrebu, fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r cynllun o ddydd i ddydd ac am gynnal proses fonitro. Enwir y Swyddog hwn yn neunydd darllen y Comisiwn Coedwigaeth ac ar ein gwefan. Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r Bwrdd Rheoli fydd yn gyfrifol am nodi'r angen am unrhyw newidiadau esblygiadol i'r cynllun ac am ddarparu'r adroddiadau angenrheidiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Y Swyddog Iaith Gymraeg fydd y cyswllt am ymholiadau ynghylch y cynllun a'i weithrediad.

DARPARU GWASANAETHAU

2.6 Ein harferiad fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae gweithrediad ein Cynllun Iaith Gymraeg yn seiliedig i raddau helaeth ar gyflawni gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd trwy gyfrwng ymagwedd o gyfrifoldeb Uned.

- Bydd Rheolwyr Unedau'n nodi sut y caiff eu gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg a Saesneg gan dîm;
- Byddwn yn sicrhau pob aelod o'r staff yn gallu cael hyd i gopi o'r cynllun ac i arweiniad staff ynghylch swyddogaethau arbennig tîm a'r gwasanaeth a ddarperir gan y tîm hwnnw i'r cyhoedd. Bydd y cynllun a'r arweiniad i staff hefyd ar gael ar fewnrwyd y sefydliad.

2.7 Caiff pob gwyriad arfaethedig oddi wrth y cynllun a allai effeithio ar ein gwasanaethau i'r cyhoedd, neu wasanaethau i'r cyhoedd yr ymgwymerir â nhw ar ein rhan neu drwy gytundebau partneriaeth ei drafod a'i gytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn ei fabwysiadu neu ei weithredu. Yn yr un modd, cytunir unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y cynllun neu ar gynllun unrhyw sefydliad arall gyda'r Bwrdd ymlaen llaw:

- Ategir cyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd gan ethos Iaith Gymraeg cryf yn y gweithle, gan gynnwys cyfuno'r Gymraeg yn gywir o fewn pob agwedd ar weithrediad y sefydliad;
- Aelodau'r Bwrdd Rheoli a Rheolwyr Unedau fydd yn gyfrifol am hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle lle bynnag bo hynny'n ymarferol;
- Gall staff ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn eu gwaith cyhyd ag y bo hynny'n gydnaws â'r cynllun a heb fod yn amharu ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol.
- Anogir siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i wneud mwy o ddefnydd o'u Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ym mhob agwedd ar eu gwaith, ac anogir siaradwyr Cymraeg i gefnogi ymdrechion dysgwyr.

Cynllunio

a darparu gwasanaethau

EIN SWYDDOGAETHAU RHEOLEIDDIO A GWASANAETHAU YR YMGYMERIR Â NHW AR EIN RHAN GAN ERAILL

2.8 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn gydnaws â rhannau perthnasol y cynllun, lle bo'r rheiny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod trydydd partion yn darparu'r gwasanaethau hynny yn unol â'r cynllun.

SAFONAU ANSAWDD

2.9 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r un ansawdd a chânt eu darparu yn ôl yr un raddfa amser.

DYFARNU GRANTIAU

2.10 Pan fyddwn yn dyfarnu grantiau ar gyfer gweithgareddau yr ymgwymerir â nhw yng Nghymru, gan gynnwys mynediad cyhoeddus a hamdden, byddwn yn cynnwys amodau ynghylch defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau.

Delio

â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

GOHEBIAETH

3.1 Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Yr un fydd ein hamser targed ar gyfer ateb ag ar gyfer llythyrau neu negesau e-bost yn Saesneg (10 diwrnod gwaith).

3.2 Pan fyddwn yn cychwyn gohebiaeth ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu Saesneg yn unig. Bydd pob llythyr safonol a chylchlythyr ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.

3.3 Byddwn yn cychwyn pob gohebiaeth yn Gymraeg ar ôl sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynydd dderbyn gohebiaeth yn Saesneg.

3.4 Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog pan fyddant ar gael. Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fydd y rheiny ar gael. Bydd pob gohebiaeth Gymraeg a anfonwn ar gopi caled wedi ei llofnodi. Bydd llofnod electronig Cymraeg (neu ddwyieithog) ar bob gohebiaeth e-bost a gyhoeddwn yn Gymraeg o Gymru.

CYFATHREBU DROS Y FFÔN

3.5 Rydym yn croesawu ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg neu Saesneg. Oddi ar 2006, mae gennym un rhif ffôn cyswllt gyda thîm gwasanaethau cwsmeriaid yn Llanrwst yn ateb pob galwad ffôn i'r Comisiwn Coedwigaeth. Atebir pob galwad i ganolfan gyswllt y Gwasanaethau Cwsmeriaid Cenedlaethol â chyfarchiad dwyieithog. Anogir galwyr i ddefnyddio'r iaith sydd orau ganddynt.

3.6 Bydd ein staff Cymraeg yn ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog ac yn defnyddio negesau dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol. Byddwn yn annog gweddill ein staff i wneud yr un peth. Bydd gan beiriannau ateb swyddfeydd lleol sy'n gysylltiedig â'r ganolfan gyswllt neges wedi ei recordio'n ddwyieithog.

3.7 Os bydd y galwr yn dymuno siarad Cymraeg, bydd staff y ganolfan gyswllt yn ceisio cysylltu â siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad. Oni fydd siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r alwad ar gael, rhoddir y dewis a ganlyn i'r galwr:

- i. cael siaradwr Cymraeg i ddychwelyd yr alwad cyn gynted â phosibl;
- ii. parhau â'r alwad yn Saesneg; neu
- iii. cyflwyno'r ymholiad yn Gymraeg mewn llythyr neu neges e-bost.

3.8 Mae llyfr ffôn mewnlol y Comisiwn, sydd ar gael i'r holl staff a thîm y Ganolfan Gyswllt ar y fewnrwyd, yn nodi lle mae staff yn gweithio, teitlau eu swyddi a phwy sy'n siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.

3.9 Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn neu gyfleusterau tebyg, i ddarparu gwybodaeth, gwasanaethau neu gefnogaeth i'r cyhoedd, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebwr hwn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu rhif ffôn.

Delio

â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

CYFARFODYDD CYHOEDDUS

3.10 Byddwn yn darparu cyfieithu ar y pryd neu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus oni fyddwn wedi darganfod bod pawb sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

3.11 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion am gyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog ac yn dweud naill ai y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw pa iaith y byddant yn dymuno'i siarad.

3.12 Byddwn yn annog cyfraniadau yn Gymraeg ac yn dewis staff Cymraeg eu hiaith sydd â'r cymwysterau priodol i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus. Byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog ac yn sicrhau y cyhoeddir adroddiadau a phapurau a gynhyrchir ar ôl cyfarfodydd yn Gymraeg a Saesneg.

CYFARFODYDD ERAILL Â'R CYHOEDDYNG NGHYMRU

3.13 Wrth drefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn yn darganfod eu dewisiadau iaith cyn gynted â phosibl ac yn sicrhau bod aelod Cymraeg ei iaith o'r staff sydd â'r cymwysterau

priodol ar gael i'r rhai sy'n dymuno siarad Cymraeg. Oni fydd siaradwr Cymraeg â'r cymwysterau priodol ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater trwy ohebiaeth yn Gymraeg.

3.14 Bydd staff y Comisiwn Coedwigaeth sy'n ymweld ag ysgolion a grwpiau gwirfoddol yn cynnig y dewis o sgwrs neu gyflwyniad yn Gymraeg neu Saesneg.

CYSYLLTIADAU ERAILL Â'R CYHOEDDYNG NGHYMRU

3.15 Wrth ymgymryd ag arolygon cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Gofynnir i'r rhai sy'n ymateb a ydynt am ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg.

3.16 Wrth drefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried dewis iaith y rhai sy'n mynychu ac argaeledd hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith.

Delwedd gyhoeddus y Comisiwn Coedwigaeth

YMGYRCHOEDD CYHOEDDUSRWYDD, ARDDANGOSFEYDD A HYSBYSEBU

4.1 Cynhyrchir yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus a hysbysebu a ddefnyddir gennym yng Nghymru yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân pan mae cylchrediad y fersiwn Saesneg ledled Prydain. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch. Eithriadau i'r uchod fydd:

- deunydd a ddefnyddir mewn digwyddiadau megis eisteddfodau lle gellir defnyddio deunydd uniaith Gymraeg ar gyfer gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a hysbysebu;
- deunydd sydd wedi eu anelu at gynulleidfa gyfyngedig ac arbenigol. Byddwn yn ystyried yr angen i gynhyrchu hyn yn ddwyieithog ym mhob achos, gan ystyried natur y gynulleidfa a'r pwnc dan sylw.

4.2 Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd a chyfnodolion Saesneg eu hiaith a ddosbarthir yn gyfan gwbl neu yn bennaf yng Nghymru, yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd a byddant yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, bydd hysbysebion yn uniaith Gymraeg.

4.3 Bydd hysbysebion teledu, sinema, band eang a radio yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Cymraeg fydd iaith hysbysebion teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod rhaglenni Cymraeg. Cymraeg fydd iaith ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol. Byddwn yn osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg a dybio rhaglenni yn Gymraeg (ac eithrio trosleisio).

4.4 Bydd llinellau ffôn ymateb a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân. Bydd unrhyw arddangosiadau clyweledol, teithiau clywedol neu gyfryngau rhyngweithiol a baratoir gennym yn ddwyieithog. Wrth staffio stondinau arddangos, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sydd â'r cymwysterau priodol yn mynychu yn ôl yr angen.

CYHOEDDIADAU

4.5 Byddwn yn cyhoeddi pob deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael yn yr un ddogfen. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân am resymau ymarferol oherwydd maint y ddogfen, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn yn cynnwys neges bod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.

4.6 Oni fydd ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na chost cyhoeddiad uniaith. Pan fyddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ni fydd yr un fersiwn yn costio mwy na'r llall.

4.7 Caiff rhai o'r adroddiadau gwyddonol a thechnegol sy'n seiliedig ar waith y Comisiwn ac a fwriedir ar gyfer cynulleidfa arbenigol a chyfyngedig eu cyhoeddi yn uniaith Saesneg. Caiff eraill, megis diwygiadau o Safon Coedwigaeth y DG a'r Canllawiau Coedwigaeth sy'n ymwneud mwy â pholisi, neu sydd ar gyfer cynulleidfa ehangach, eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Nodwyd categori canol o gyhoeddi technegol, lle gall y fersiwn Cymraeg fod ar gael ar y wefan yn unig, lle gall darllenwyr ei hargraffu yn ôl y galw.

4.8 Penderfynir a yw'r Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer dogfennau gwyddonol a thechnegol ar wahân i'r rhai a nodir yn benodol ym mharagraff 4.7 trwy gyfrwng system sgorio a gytunir gyda'r Bwrdd. Mae'n nodi'n glir yr eitemau hynny a fydd bob amser yn ddwyieithog a'r rhai a fydd fel arfer yn uniaith, yn ogystal â sut fydd y fersiynau hyn ar gael. Defnyddir y meini prawf ar gyfer pob cyhoeddiad newydd, gan gynnwys adolygiadau.

Delwedd gyhoeddus y Comisiwn Coedwigaeth

GWEFAN

4.9 Byddwn yn cynnal gwefan gwbl ddwyieithog. Caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg ein cyhoeddiadau eu rhoi ar ein gwefan ar yr un pryd. Wrth ailgynllunio gwefannau newydd neu ailddatblygu ein gwefan bresennol, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw arweiniad arall a gyhoeddir gan y Bwrdd mewn perthynas â datblygu gwefannau.

4.10 Byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefan. Pan fyddwn yn rhoi cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefan, caiff y fersiynau Cymraeg eu hychwanegu ar yr un pryd os byddant ar gael.

FFURFLENNI A DEUNYDDIAU ESBONIADOL CYSYLLTIEDIG

4.11 Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig sydd ar gael i'r cyhoedd yn gwbl ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael yn yr un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan.

4.12 Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân am resymau ymarferol oherwydd maint y ddogfen, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd. Byddwn yn sicrhau bod y ddau

fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch. Bydd y ddau fersiwn yn cynnwys neges bod y ffurflen ar gael yn y naill iaith a'r llall.

4.13 Anfonir ffurflenni dwyieithog at y cyhoedd oni fyddwn yn gwybod y byddai'n well gan y derbynwyr gael yr wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig. Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau y gwnânt hynny yn unol â'n Cynllun.

HUNANIAETH GORFFORAETHOL

4.14 Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, manylion cyswllt, logo, sloganau ac unrhyw wybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar bob deunydd sy'n cynnwys ein hunaniaeth gorfforaethol. Bydd hyn yn cynnwys ein deunyddiau ysgrifennu a deunyddiau megis cardiau busnes, bathodynau adnabod, pasiau, tocynnau maes parcio, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch, gwahoddiadau a cherbydau'r Comisiwn.

4.15 Rhaid i faint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun ar bob deunydd gadw at yr egwyddor o gydraddoldeb. Efallai byddwn yn defnyddio brandio uniaith Gymraeg ar gyfer rhai mentrau.

ARWYDDION YNG NGHYMRU

4.16 Byddwn yn sicrhau bod ein holl arwyddion parhaol a thros dro sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael ei drin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

4.17 Byddwn yn cadw at yr arfer hwn bob tro y byddwn yn gosod arwyddion am y tro cyntaf neu'n newid arwyddion. Gall arwyddion a ddefnyddir mewn digwyddiadau megis yr Eisteddfod Genedlaethol fod yn uniaith Gymraeg. Os defnyddir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

HYSBYSIADAU SWYDDOGOL, HYSBYSIADAU CYHOEDDUS A HYSBYSIADAU RECRIWTIO STAFF

4.18 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg eu hiaith a ddosbarthir yn gyfan gwbl neu yn bennaf yng Nghymru, yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, bydd yr hysbysiadau'n uniaith Gymraeg.

Delwedd gyhoeddus y Comisiwn Coedwigaeth

4.19 Yn y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.

4.20 Gall hysbysebion recriwtio a gyhoeddir mewn papurau Saesneg a ddsbarthir ledled y DG fod yn Saesneg, oni bai bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, pryd gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog neu yn Gymraeg gyda disgrifiad cryno yn Saesneg. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn lleoedd eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

DATGANIADAU NEWYDDION A CHYSYLLTU Â'R CYFRYNGAU

4.21 Cyhoeddir datganiadau newyddion i'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg yng Nghymru yn Gymraeg pan fo terfynau amser yn caniatáu. Bydd datganiadau newyddion ar ein gwefan yn ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i roi cyfweiliadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

Gweithredu'r cynllun

STAFFIO

5.1 Mae dwyieithrwydd yn fanteisiol ar gyfer pob un o swyddi'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru ac yn hanfodol ar gyfer rhai swyddi. Bydd yr angen am sgiliau dwyieithog yn amrywio o swydd i swydd ac o leoliad i leoliad ac fe'i pennir yn ôl y categorïau a ganlyn:

Categori A - Swyddi y mae'n rhaid i'r sawl a benodir fod yn rhugl yn y Gymraeg adeg penodi.

Categori B - Swyddi lle mae safon y Gymraeg a ddisgwylir yn darged penodol i'w gyrraedd o fewn amser penodol.

Categori C - Swyddi lle mae'n fanteisiol i'r sawl a benodir fod yn rhugl yn y Gymraeg.

5.2 Pennir gofynion cymhwysedd iaith swyddi yn y lle cyntaf gan Reolwyr Unedau ar y cyd â'r tîm Adnoddau Dynol ac yna fe'u hysbysir i'r Swyddog Iaith Gymraeg. Lle na cheir cytundeb, pennir categori sgiliau iaith y swydd gan Bennaeth Adnoddau Dynol ar y cyd â'r Pennaeth Tîm perthnasol [Aelod o'r Bwrdd Rheoli].

5.3 Ar gyfer swyddi Categori A, bydd rhaid i ddeiliad y swydd fod yn gwbl ddwyieithog, naill ai mewn Gymraeg a Saesneg ysgrifenedig a llafar, neu mewn Gymraeg a Saesneg llafar yn unig. Mewn achosion fel hyn, bydd angen sgiliau dwyieithog ar unwaith a dylai'r swyddog fod yn rhugl adeg y penodiad.

5.4 Ar gyfer rhai swyddi [Categori B] lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, gall fod yn dderbyniol i rywun nad yw'n siarad Gymraeg neu sy'n dysgu Gymraeg gael ei benodi ar yr amod ei fod yn dysgu Gymraeg o fewn cyfnod penodol i'r safon angenrheidiol i ddiwallu anghenion y swydd. Bydd staff a benodir i'r swyddi hyn yn ymrwymo i raglen hyfforddi benodedig dros gyfnod penodol a fydd yn eu galluogi i gyrraedd y safon angenrheidiol erbyn diwedd y cyfnod hyfforddi.

5.5 Pan nad yw'n hanfodol bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer swydd benodol (Categori C), byddwn serch hynny yn dilyn ein polisi rhagweithiol o annog staff i ddisgu a defnyddio'r iaith er mwyn hyrwyddo ethos dwyieithog ledled y sefydliad.

5.6 Mae swyddi Categori A, lle mae bod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg yn gymhwysedd hanfodol, yn swyddi allweddol sy'n gofyn am lawer o gyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd. Byddant yn cynnwys, er enghraifft, swyddi yn y tîm Gwasanaethau Cyhoeddus Cenedlaethol, y tîm Cyfathrebu a staff gweithredol a chyswllt cymunedol rheng flaen. Yn ogystal â hyn, ceir swyddi lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol er mwyn diwallu ymrwymadau'r Uned fel y'u nodir mewn man arall yn y cynllun hwn. Fel sefydliad, byddwn yn anelu at gael staff ag arbenigedd ar draws ein holl feysydd pwnc sy'n siarad ac yn ysgrifennu Gymraeg yn ddigonol. Ym mhob un o'r meysydd a

sefyllfaoedd gwasanaeth hyn, byddwn yn ceisio sicrhau y darperir gwasanaethau o'r un safon yn Gymraeg a Saesneg a'u bod yr un mor hawdd eu cael yn y ddwy iaith.

5.7 Pan fo'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer swydd, bydd y panel cyfweld yn profi gallu ymgeiswyr i ysgrifennu a/neu siarad Gymraeg, yn ôl gofynion y swydd.

- Os yw bod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg yn hanfodol ar gyfer swydd, cynhelir cyfweiliadau ar gyfer y swydd honno gan ddefnyddio'r ddwy iaith. Bydd angen o leiaf un siaradwr Gymraeg rhugl ar y panel cyfweld a bydd yn gyfrifol am asesu safon Gymraeg yr ymgeisydd yn ôl y safon angenrheidiol. Yn ddelfrydol, dylai paneli cyfweld ar gyfer pob swydd arall gynnwys o leiaf un siaradwr Gymraeg a fydd yn gyfrifol am gynnal rhan o'r cyfweiliad yn Gymraeg ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi derbyn y cynnig o gyfweiliad dwyieithog;
- Bydd y tîm Adnoddau Dynol, ar y cyd â'r Swyddog Iaith Gymraeg, yn paratoi a dosbarthu arweiniad a chyfarwyddiadau safonol ar gyfer aelodau o baneli cyfweld sy'n gyfrifol am asesu a gwerthuso sgiliau Gymraeg.

Gweithredu'r cynllun

- Byddwn yn cynnwys yn nhestun ein ffurflenni cais am swyddi a'n hysbysebion recriwtio mewnol, gais i ymgeiswyr nodi a yw'n well ganddynt gael cyfweiliad yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Bydd ymgeiswyr am swyddi'n derbyn copi o fanylion pellach y swydd a dogfennau cyflogaeth perthnasol eraill yn ddwyieithog.

RECRIWTIO

5.8 Pan ystyrir ei bod yn hanfodol neu yn fanteisiol i ymgeiswyr fod yn rhugl yn y Gymraeg, nodir hyn ar fanylebau a hysbysebion swyddi.

5.9 Os na ellir dod o hyd i ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swyddi Categori B lle mae'r Gymraeg yn hanfodol (neu pan fydd ymgeisydd nad yw'n siarad Cymraeg wedi ei benodi ac yn dysgu'r iaith), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro i'r gwasanaeth Cymraeg gael ei ddarparu (trwy ddefnyddio, er enghraifft, staff Cymraeg o rannau eraill o'n sefydliad i gyflawni rhannau o'r gwasanaeth).

5.10 Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cael anhawster mawr i recriwtio staff â'r cymwysterau priodol sy'n siarad Cymraeg i rai swyddi, yn enwedig i swyddi Coedwigwr a graddau arbenigol eraill. Rydym

yn bwriadu mynd i'r afael â'r broblem hon mewn modd rhagweithiol.

- Byddwn yn ymrwymo i ariannu rhaglen dreigl o ysgoloriaethau i fyfyrwyr o'r flwyddyn academaidd 2007/08 trwy'r cynllun Ysgoloriaeth Gymraeg a sefydlwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Yr hyn a wnawn fydd cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n astudio ar gyfer cymwysterau perthnasol ym meysydd coedwigaeth neu feysydd eraill yn ymwneud â'r tir. Gall y myfyrwyr hyn fod yn astudio unrhyw le yn y DG. I'r myfyrwyr hynny fyddai'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn cynnig ychwanegiad i'r ysgoloriaeth sylfaenol. Byddwn hefyd yn darparu lleoliadau blwyddyn ryngosod i'r holl fyfyrwyr y mae eu hangen arnynt fel rhan o'u hastudiaethau;
- Caiff gwybodaeth am y Comisiwn Coedwigaeth a'r sector coedwigaeth ehangach ei dosbarthu i sefydliadau addysg a sefydliadau dylanwadol eraill yng Nghymru a thu hwnt fel rhan o'r broses o annog siaradwyr Cymraeg i gymryd diddordeb yn y sector Coedwigaeth fel gyrfa.

5.11 Darperir contractau cyflogaeth yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'r dewis iaith a nodir gan y sawl a benodir.

HYFFORDDIANT IAITH

5.12 Anogir ein staff i ddysgu neu wella eu Cymraeg a byddwn yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno ymgymryd â chysiau iaith pan fo hynny o fudd yn eu gwaith neu os ydynt yn gobeithio symud i swydd arall yn y dyfodol lle bydd y Gymraeg yn hanfodol neu'n debygol o fod o ddefnydd.

5.13 Byddwn yn ariannu'r cyrsiau ac yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn gydnaws â'u horiau gwaith.

HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL

5.14 Byddwn yn datblygu gallu ein staff Cymraeg i weithredu yn Gymraeg trwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol.

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

5.15 Byddwn yn darparu ar gyfer yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Wrth inni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, byddwn yn cymryd safonau TGCh y Bwrdd i ystyriaeth.

Gweithredu'r cynllun

5.16 Byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau y byddant yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Y gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau ar-lein yw system y Comisiwn ar y we a ddefnyddir i weithredu system grantiau Gwell Coetiroedd i Gymru. Ein polisi yw cynnal cymaint â phosibl o waith Gwell Coetiroedd i Gymru trwy system electronig ar y we yn Gymraeg a Saesneg. Bydd yn darparu'r holl wybodaeth ymgynghorol, dechnegol a chyffredinol fydd ei hangen ar bobl sy'n ymwneud â rheoli coetiroedd.

GWEITHIO TRWY BARTNERIAETH

5.17 Lle byddwn yn arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

5.18 Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol a arweinir gan sefydliad arall, bydd ein mewnbwn ni i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

5.19 Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r

cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

TREFNIADAU MEWNOL

5.20 Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad. Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith. Rydym wedi penodi Pennaeth yr Ysgrifenyddiaeth a Chyfathrebu i gydlynu'r gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

5.21 Byddwn yn paratoi, ac yn diweddarau'n gyson, gynllun gweithredu manwl i'w gytuno gyda'r Bwrdd fydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Bydd y cynllun gweithredu'n dod i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu gyn gynted â phosibl wedi hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn ôl pob targed. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y cynllun hwn cyn gynted â phosibl.

5.22 Byddwn yn hysbysebu'r cynllun i'n staff ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn lle amlwg. Caiff ein nodau arweiniol i'r

staff eu diweddarau i adlewyrchu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn. Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i'n staff i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn ac i esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith beunyddiol.

5.23 Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwys a ddefnyddir gennym i weithredu'r cynllun hwn. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

5.24 Ymgymerir ag **unrhyw fath o contract** â'r cyhoedd yng Nghymru nad yw'r cynllun hwn yn delio ag ef yn uniongyrchol mewn modd sy'n gydnaws â'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn y cynllun hwn.

Y DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH A'R RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL

5.25 Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn eu cyfieithu i ddewis iaith y sawl sy'n gwneud y cais.

MONITRO

5.26 Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn yn ôl y targedau a nodir yn y cynllun

Gweithredu'r cynllun

gweithredu a byddwn yn adrodd i Gyfarwyddwr Cymru. Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn.

5.27 Byddwn yn adrodd wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg am ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn pryd bynnag y bydd y Bwrdd yn gofyn. Byddwn hefyd yn defnyddio gweithdrefn hunanasesu, a gytunir gyda'r Bwrdd, er mwyn monitro ein cynnydd.

ADOLYGU A DIWYGIO'R CYNLLUN

5.28 Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd i'r dyddiad y daw i rym. Hefyd, o bryd i'w gilydd, gall y bydd angen i ni adolygu'r cynllun, neu gynnig diwygiadau iddo, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau neu i amgylchiadau ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

CWYNION AC AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLIANT

5.29 Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer ei wella, at Gyfarwyddwr Cymru yn y cyfeiriad hwn:

Y Comisiwn Coedwigaeth
Rhodfa Fuddug
Aberystwyth
SY23 3QQ

Neu trwy e-bost at: fcwales@forestry.gsi.gov.uk

5.30 Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithredu fel adran goedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn atebol i Weinidogion Cymru

Cyswllt

Y Comisiwn Coedwigaeth
Ty Buddug
Rhodfa Fuddug
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2DQ

Ffôn: 0845 604 0845

Facs: 01970 625282

E-bost: fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk

We: www.forestry.gov.uk/wales

Cyhoeddwyd gan - Comisiwn Coedwigaeth Cymru
© Crown Copyright 2007

All photography from Forestry Commission Picture Library unless otherwise stated
Dylunwyd gan ARGRAFF 01970 611153



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government